

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Rhaglen waith 2017-21

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Rhaglen waith 2017-21

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau'r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; partïon eraill â buddiant.

Camau i'w cymryd

Partïon â buddiant i nodi cynnwys y strategaeth a'r raglen waith 2017-21, a gweithredu'n unol â hynny.

Trosolwg

Y rhaglen waith hon yw'r gyntaf o sawl rhaglen waith a gaiff eu cyhoeddi yn ystod oes Strategaeth Cymraeg 2050. Mae'n amlinellu, un nod ar y tro, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod y cyfnod 2017 i 2021 er mwyn cyflawni amcan polisi'r strategaeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dylid darllen y rhaglen waith hon ochr yn ochr â'r strategaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: Cymraeg@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* (2016); *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17* (2012); *Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen* (2014); *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Y trywydd tuag at y miliwn	3
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	6
Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg	18
Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun	26

Cyflwyniad

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o wireddu ein gweledigaeth o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hwn yn ymrwymiad a nodwyd yn *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021*, y Rhaglen Lywodraethu. Rhaglen waith ar gyfer 2017–21 yw hon a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r strategaeth.

O'n man cychwyn yn 2017, rydym yn dra ymwybodol o'r her sydd o'n blaenau. Mae angen gweithredu ar draws y Llywodraeth er mwyn gosod y seiliau sydd eu hangen i gynyddu nifer y siaradwyr i filiwn erbyn 2050.


Rydym yn ffodus nad ydym yn cychwyn o'r dechrau'n deg. Mae cefnogaeth y Llywodraeth i'r iaith yn gryfach nag erioed. Mae i'r Gymraeg statws swyddogol; mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg, diolch i Safonau'r Gymraeg, ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i phenodi i oruchwylio sut mae'r hawliau hynny yn cael eu rhoi ar waith. Mae yna sail statudol hefyd i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys y Gymraeg o fewn un o'i saith nod llesiant.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn ein herio i symud ymlaen i gam nesaf ein taith ieithyddol. Y rhaglen waith hon yw man cychwyn gweithredu'r strategaeth.



Y trywydd tuag at y miliwn

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi'r tair thema strategol ganlynol.



Mae'r tair thema strategol a amlinellir uchod yn cyfrannu at y targedau cyffredinol canlynol.

- **Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.**
- **Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.**

Ein dull gweithredu

Dyma'r gyntaf o sawl rhaglen waith y byddwn yn eu cyhoeddi yn ystod oes y strategaeth. Bydd pob un yn ceisio hybu'r strategaeth, ond bydd yna gyfle hefyd i bwysu a mesur fel y gallwn ofalu ein bod ar y trywydd iawn tuag at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd angen i bob rhaglen waith adlewyrchu amgylchiadau'r union gyfnod dan sylw. Drwy gadw llygad ar bolisiau wrth iddynt newid ac ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau hynny, byddwn yn sicrhau nad ydym yn colli golwg ar ein nodau a'n gweledigaeth gyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd pa effaith y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei chael ar y Gymraeg. Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu cwricwlwm addysg newydd. Gallai'r ddwy elfen hon ddylanwadu ar y graddau y llwyddwn i gyrraedd ein targedau.

Y rhaglen waith: 2017-2021

Bydd y blynyddoedd cychwynnol yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn. Mae hon yn broses araf, gyson, heb lwyddiant amlwg efallai. Eto i gyd, rydym yn ystyried bod gosod y seiliau nawr yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynnal camau pellach i weithredu'r strategaeth.

Mae'r strategaeth yn cynnig taflwybr ar gyfer y daith at y miliwn o siaradwyr. O ran y cam cyntaf, y cerrig milltir i nodi ein bod ar y llwybr iawn fydd:

- cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011
- cynnydd yng nghanran y dysgwyr a fydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.

Bydd llawer o'n pwyslais, felly, ar hyrwyddo'r ddau faes gwaith hwn rhwng nawr a 2021 er mwyn cryfhau'r seiliau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn hwyluso cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, byddwn yn:

- ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021
- cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:
 - 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16)

- 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16)
- 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

Byddwn hefyd yn cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed o gynyddu cyfraddau'r bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 y cant o'r boblogaeth i 20 y cant yn 2050. Cynyddu'r targed o 10 y cant i 11 y cant erbyn 2021 fydd ein carreg filltir gyntaf.

Yn ogystal â'r targedau tymor byr a nodwyd uchod, byddwn yn ceisio cael darlun cliriach o'r elfennau eraill sy'n dylanwadu ar y strategaeth. Byddwn yn edrych, er enghraifft, ar sgiliau Cymraeg gweithlu'r blynyddoedd cynnar a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Monitro ac adrodd

Byddwn yn monitro gweithrediad y rhaglen waith hon yn barhaus. Byddwn yn sefydlu Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 i oruchwylio'r cynnydd.

Mae unigolion wedi'u penodi i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg. Bydd y rhain yn rhoi cyngor allanol i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ar weithredu'r strategaeth a rhaglenni gwaith y dyfodol.

Thema 1:
Cynyddu nifer y siaradwyr
Cymraeg



Mae'r adran hon yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu mewn perthynas â'r canlynol:

- 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu**
- 2. Y blynyddoedd cynnar**
- 3. Addysg statudol**
- 4. Addysg ôl-orfodol**
- 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau.**

Mae dysgu'r iaith o'r crud neu o oed ifanc iawn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygu cymhwysedd a sgiliau pellach yn y dyfodol. Mae ffigurau diweddaraf y cyfrifiad yn dangos pwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg, ac mae lle i gynyddu'r gyfradd drosglwyddo ar aelwydydd dwyieithog. Ar hyn o bryd, mewn aelwydydd pâr lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg, mae 82 y cant o blant tair a phedair oed yn gallu siarad Cymraeg. Mewn aelwydydd pâr lle mae un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, mae 45 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg. Bydd ein pwyslais ar gynnal y cyfraddau trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg ac ar gynyddu'r gyfradd drosglwyddo mewn teuluoedd lle mae mwy nag un iaith yn cael ei siarad.

Mae pen draw, fodd bynnag, i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellir eu creu o drosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol hynny i addysg gynradd ac uwchradd, ac yna i addysg uwch a phellach, yn hanfodol er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr, mae ein system addysg yn ddibynnol ar y gweithlu – athrawon, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, hyfforddwyr a darlithwyr. Mae sicrhau gweithlu sydd â sgiliau ieithyddol cadarn ac sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr mewn addysg Gymraeg yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth.

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Ein nod: rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Datblygiadau diweddar

Rydym wedi cysoni pob menter sy'n ceisio cefnogi a hyrwyddo'r arfer o drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu. Yn ogystal â buddsoddi mewn gwaith ymchwil i arferion trosglwyddo'r iaith, lansiodd rhaglen newydd yn 2016, gan dynnu ynghyd bob gweithgaredd yn y maes hwn o dan faner 'Cymraeg i Blant'. O fis Ebrill 2017, mae'r rhaglen hon wedi ehangu i gynnig cymorth dwys ar lefel genedlaethol am y tro cyntaf er mwyn annog a helpu teuluoedd ledled Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Cydweithio â'r prif randdeiliaid i ddatblygu polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.**
- 2. Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref.**
- 3. Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwragedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.**

2. Y blynyddoedd cynnar

Ein nod: ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Carreg filltir

- Cefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf.



Datblygiadau diweddar

Rydym wedi cynyddu'r cyllid grant i Mudiad Meithrin er mwyn parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'r Rhaglen Cymraeg i Blant nid yn unig yn rhoi gwybodaeth i rieni newydd a darpar rieni am drosglwyddo'r iaith, mae ganddi hefyd y nod o gefnogi plant wrth drosglwyddo i ddarpariaeth Gymraeg y

blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Mae'r data gweinyddol diweddaraf yn dangos bod 86 y cant o blant sy'n mynd i grwpiau Mudiad Meithrin yn mynd ymlaen i addysg gynradd Gymraeg. Cymerwyd camau hefyd i sicrhau bod negeseuon cyson am ddarpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol Gymraeg yn cael eu rhoi i rieni/gofalwyr a darpar rieni drwy GIG Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, awdurdodau lleol, a phartneriaid lleol a chenedlaethol eraill.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru, gan sicrhau mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Gymraeg dan nawdd y llywodraeth, a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar sail yr wybodaeth a ddaw i law yn ystod cyfnod gweithredu cynnar y cynnig o fis Medi 2017.**
- 2. Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Gymraeg bresennol gan gynorthwyo darparwyr i ehangu a dod yn hunan-gynhaliol, yn ogystal â chefnogi ehangu'r ddarpariaeth i greu 40 yn fwy o grwpiau meithrin gan dargedu manau wedi'i hadnabod trwy weithgarwch y Cynnig Gofal Plant lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar hyn o bryd.**
- 3. Drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cydweithio ag awdurdodau lleol a darparwyr i wella'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Gymraeg y blynyddoedd cynnar, er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Gymraeg ac addysg statudol cyfrwng Gymraeg.**

3. Addysg statudol

Ein nod: creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Carreg filltir

- Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, a hynny er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.

Datblygiadau diweddar

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd gwerthusiad o'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010). Daeth y *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Terfynol* i'r casgliad bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi arwain at rai elfennau cadarnhaol ac wedi darparu fframwaith ar gyfer dull mwy pwrpasol, strategol o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Eto i gyd, mae yna heriau i'w wynebu, yn benodol cryfhau prosesau cynllunio a sicrhau bod y gwaith o addysgu a dysgu Cymraeg yn ein hysgolion yn ei gwneud yn bosibl i'n pobl ifanc dyfu'n siaradwyr Cymraeg hyderus.

Yn 2016, aethom ati i ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i'r system gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn sgil hyn, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar gyfer paratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017–20, gan ystyried y safbwyntiau a ddaeth i'n sylw. Wrth gwrs, roedd yn rhaid gweithredu yng nghyd-destun y rheoliadau presennol a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rydym hefyd wedi cryfhau ein perthynas â phartneriaid sydd â rôl yn y gwaith o gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg drwy fynychu Fforymau Addysg Gymraeg. Ym Mawrth 2017, comisiynwyd adolygiad cyflym i ddarparu asesiad annibynnol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017–20. Bydd ein camau nesaf yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad.

Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i bob ysgol yng Nghymru gyfrannu at y nod o greu siaradwyr Cymraeg. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu un continwwm iaith ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein hysgolion. Rydym hefyd yn y broses o wneud gwaith ymchwil ar fodolau trochi ieithyddol fel sail i addysgu a dysgu yn y dyfodol.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chyhoeddi cyn diwedd 2017, polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol, yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth.**
- 2. Datblygu un continwwm o addysgu a dysgu Cymraeg i'w gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod y gwaith o asesu ac arholi sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg yn gwbl gysylltiedig â'r addysgu a'r dysgu.**
- 3. Sefydlu bwrdd annibynnol i roi cyngor ar newidiadau i brosesau cynllunio addysg Gymraeg.**
- 4. Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg Gymraeg.**
- 5. Creu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynllunio uchelgeisiol, a phennu targedau cyraeddadwy ond realistig, gan wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd eisoes gennym. Gallai hyn gynnwys buddsoddi cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.**
- 6. Adolygu'r diffiniadau a'r categorïau ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn unol â'r iaith addysgu.**
- 7. Adolygu'r broses ar gyfer cynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.**
- 8. Cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn y sector cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid.**
- 9. Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.**
- 10. Cryfhau'r cysylltiadau ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant rhwng gwahanol gyfnodau addysg.**

4. Addysg ôl-orfodol

Ein nod: datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

Datblygiadau diweddar

Mae'r sector addysg bellach wedi datblygu seilweithiau colegau i'w gwneud yn bosibl gwella'r broses o gynllunio cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy'r Prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Rydym wedi cefnogi datblygiad staff ym maes addysgu dwyieithog drwy gorff arbenigol Sgiliaith, ac wedi gwneud cynnydd yn y sector dysgu seiliedig ar waith; rydym hefyd wedi datblygu'r ddarpariaeth o fewn y rhwydwaith darparwyr i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu.

Yn ogystal â'r cymorth rydym yn parhau i'w roi i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ym maes addysg uwch, rydym hefyd wedi buddsoddi mewn adolygiad o'r sector Cymraeg i Oedolion, sydd wedi arwain at lansio Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ôl data blwyddyn academaidd 2015/16, mae 16,375 o oedolion yn dysgu Cymraeg drwy lwybrau Cymraeg i Oedolion ffurfiol.



O safbwynt deddfwriaethol, rydym wedi ei gwneud yn bosibl i Gomisiynydd y Gymraeg ddechrau ar y broses o wneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan roi sylw penodol i'r cyfraddau sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, a datblygu addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi.**
- 2. Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysg bellach o ran y cyrsiau sydd ar gael a niferoedd y myfyrwyr sy'n eu dilyn.**
- 3. Sicrhau bod mwy o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn cael y cyfle i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle hwnnw, gan gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu haddysg, ni waeth pa mor rhugl ydynt.**
- 4. Datblygu ymgyrchoedd marchnata drwy gydweithio â chyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.**
- 5. Drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ehangu darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gynnwys mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle.**

5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Ein nod: cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.
-

Cerrig milltir

- Cynnydd yn nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,100 erbyn 2021.
- Cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg o 500 i 600 erbyn 2021, a'r nifer sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 2,200 erbyn 2021.

Datblygiadau diweddar

Ers 2003, mae ymarferwyr sy'n ymuno â'r gweithlu gofal plant a gweithlu'r blynyddoedd cynnar wedi gallu ennill cymhwyster drwy'r Gymraeg o ganlyniad i'r cynllun 'Cam wrth Gam'. Hefyd, mae mwy na 1,400 o ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau addysg bellach wedi cael y cyfle i wella eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy'r Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg.



Mae rhaglen gynhwysfawr i gomisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn ei lle ar hyn o bryd er mwyn diwallu anghenion dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglen hon yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi adnoddau gwreiddiol Cymraeg yn ogystal â chyfieithu adnoddau sydd ar gael yn Saesneg. Mae gan y proffesiwn addysgu rôl ganolog yn natblygiad yr adnoddau hyn, a bydd y rôl honno'n parhau.

Yn dilyn yr uwchgynhadledd ar adnoddau addysgol Cymraeg a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i ymchwilio i ffyrdd newydd o lunio adnoddau Cymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi'n amserol a'u bod yn berthnasol i anghenion y cwricwlwm yn y dyfodol.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y cymwysterau sydd ar gael drwy'r Gymraeg ac mae disgwyl i Cymwysterau Cymru, a sefydlwyd yn ddiweddar, hybu a hwyluso eu datblygiad. Mae'r broses o adolygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg wedi dechrau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Wrth i'r broses hon barhau ac wrth i fwy o sectorau gael eu hadolygu, bydd ystod y cymwysterau sydd ar gael yn cynyddu.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Ehangu cynllun hyfforddiant cenedlaethol y Mudiad Meithrin i sicrhau fod mwy o unigolion yn cymhwyso i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant.**
- 2. Datblygu dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a'i allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio'r gweithlu.**
- 3. Sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg cychwynnol athrawon y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'u harbenigedd i addysgu drwy'r Gymraeg.**
- 4. Datblygu rhaglen ddysgu broffesiynol i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chefnogaeth drwy'r consortia rhanbarthol.**
- 5. Cefnogi y gweithlu o fewn y sector addysg ôl-16 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gynllun hyfforddiant penodol er mwyn cynyddu capasiti'r sector i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- 6. Cynllunio seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda ffocws o'r newydd ar y sectorau ôl-16.**
- 7. Datblygu mwy o adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.**
- 8. Cydweithio â Cymwysterau Cymru i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg.**

Thema 2:
Cynyddu'r defnydd o'r
Gymraeg



Mae'r adran hon yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu mewn perthynas â'r canlynol:

- 6. Y gweithle**
- 7. Gwasanaethau**
- 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.**

Drwy adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y system addysg, a gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm fel bod pawb yn gadael yr ysgol â sgiliau ymarferol i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle, rydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl fydd â'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Ond er mwyn i ymdrechion pobl i ddysgu'r iaith fod yn llwyddiannus, mae angen darparu cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r un amrywiaeth eang ag a welir ym mywydau pobl. Mae angen cyfleoedd ar lefel y teulu, y gweithle, drwy weithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach.

Rhaid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg, fel nad oes yn rhaid i'r unigolyn ofyn am y Gymraeg. Yn y pen draw, y weledigaeth yw bod pobl yn ei defnyddio ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man. Bydd ein ffocws ar gynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10 y cant i 11 y cant yn 2021.

Rydym yn ymwybodol hefyd o'r angen i ehangu'r cyfleoedd anffurfiol i blant a phobl ifanc er mwyn pontio'r bwlch rhwng addysg a'r gymuned ehangach. Y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, mae'n dal i fod angen cydweithio'n agos â phartneriaid cymunedol allweddol a sefydliadau ar lawr gwlad er mwyn darparu cyfleoedd cyffrous i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau'r ysgol.

6. Y gweithle

Ein nod: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Datblygiadau diweddar

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i fwy na 100 o gyrff y sector cyhoeddus, gan roi dyletswyddau arnynt sy'n cynnwys asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu, darparu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith, a'i gwneud hi'n glir i'r cyhoedd pwy yw'r rheini sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd *laith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog: Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol* (2016). Yn yr adroddiad hwn, cydnabyddir bod yn rhaid cefnogi'r Gymraeg yn y gweithle ac fel iaith gweinyddu mewn llywodraeth leol.

Rydym wedi comisiynu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflwyno rhaglen dysgu newydd Cymraeg yn y Gweithle, er mwyn i fwy o bobl allu defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.**
- 2. Parhau i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg.**
- 3. Datblygu a chyflwyno fframwaith cymorth cenedlaethol fel rhan o raglen newydd i hybu'r Gymraeg er mwyn annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd yn y gweithle a chymryd camau i wneud hynny'n realiti.**
- 4. Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol - Deall Dwyieithrwydd - i sefydlu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynllunio'r gweithlu fel rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus.**
- 5. Ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle i gyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gan roi pwyslais penodol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.**

7. Gwasanaethau

Ein nod: cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Datblygiadau diweddar

Cadarnhaodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith, gan gynnwys rôl Comisiynydd y Gymraeg. Mae gwneud Rheoliadau Safonau'r Gymraeg wedi bod yn rhan allweddol o roi'r Mesur ar waith, gan eu bod yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar sefydliadau a hybu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Nod Safonau'r Gymraeg yw darparu gwell eglurdeb i'r cyhoedd ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg a sicrhau bod sefydliadau'n mynd ati i ddarparu'r gwasanaethau hynny mewn modd rhagweithiol. Mae egwyddor y 'cynnig rhagweithiol' yn arbennig o berthnasol wrth ystyried gwasanaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae *Mwy na geiriau . . . Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019* (Llywodraeth Cymru 2016) yn ategu egwyddor y cynnig rhagweithiol, gan ddarparu cyd-destun i'r gwaith o baratoi Rheoliadau drafft.



Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w ddiwygio a bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2017. I gefnogi'r datblygiadau deddfwriaethol hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, mae'r rheini sy'n derbyn ein grant i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wedi bod yn mynd ati i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ac annog pobl i'w defnyddio.

Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â Chomisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith i dreialu cyfres o fentrau i helpu busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg ac i gynyddu faint o Gymraeg sydd i'w gweld yn ein cymunedau.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 â'r nod o sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.**
- 2. Parhau i gyflwyno Safonau'r Gymraeg i sefydliadau o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth.**
- 3. Gwneud gwaith ymchwil i dechnegau newid ymddygiad er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well mewn ymateb i'r nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg.**
- 4. Adolygu a gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran y pwyntiau gweithredu a amlinellwyd yn *Mwy na geiriau . . . Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019*, gan gynnwys darparu'r cynnig rhagweithiol.**
- 5. Fel rhan o'r Fframwaith Cymorth Cenedlaethol i Fusnesau, cynyddu dealltwriaeth a manteisio ar gyfleoedd i gryfhau gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid.**

8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Ein nod: sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Datblygiadau diweddar

Rydym yn gyfarwydd â mentrau a arweinir gan ddysgwyr ac wedi eu rhoi ar waith ers sawl blwyddyn gan gyflwyno prosiectau sydd â'r nod o rymuso pobl ifanc, rhieni/gofalwyr, darparwyr, athrawon, a staff ysgolion meithrin i ystyried eu Cymreictod a sefydlu ymdeimlad o gysylltiad â'r iaith a pherchnogaeth ohoni. Mae'r gweithgarwch hwn wedi arwain at ehangu Siarter yr Iaith Gymraeg yn rhaglen genedlaethol mewn ysgolion cynradd Cymraeg.

Drwy'r cynllun grant i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, rydym wedi buddsoddi'n gyson yn y Mentrau Iaith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a'r Papurau Bro i ddarparu cyfleoedd newydd ac amrywiol i deuluoedd, plant a phobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol y tu hwnt i oriau ysgol. Mae ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol wedi'u datblygu i gefnogi'r gweithgareddau hyn, fel #Cymraeg a #DyddMiwsigCymru. Mae gwaith wedi'i wneud i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau'r trydydd sector mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).



Gwnaed darpariaethau drwy system Safonau'r Gymraeg i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried sut orau i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd ac i weithio'n strategol i gynyddu'r cyfleoedd hynny â chymorth eu sefydliadau Cymraeg lleol.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Sefydlu Rhaglen Hybu'r Gymraeg newydd i ddatblygu a darparu cynllun cydgysylltiedig i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywydau pobl.**
- 2. Rhoi fframwaith ystyrllon ar waith er mwyn annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc ac i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuentid a grwpiau cymunedol.**
- 3. Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a ariennir gennym, gan sicrhau bod y cyfleoedd ariannu yn gydnaws â'r strategaeth yn ogystal ag anghenion lleol.**
- 4. Trwy ein cynlluniau cyllido, cefnogi teuluoedd i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.**
- 5. Cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.**
- 6. Datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned.**

Thema 3:

Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun



Mae'r adran hon yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu mewn perthynas â'r canlynol:

- 9. Cymuned a'r economi**
- 10. Diwylliant a'r cyfryngau**
- 11. Cymru a'r byd ehangach**
- 12. Technoleg ddigidol**
- 13. Seilwaith ieithyddol**
- 14. Cynllunio ieithyddol**
- 15. Gwerthuso ac ymchwil.**

Ein gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn rhan arferol o fywyd bob dydd, gydag ewyllys da tuag ati a mwy o bobl yn ei defnyddio. Rydym am i'r Gymraeg fod yn berthnasol i bawb yng Nghymru, waeth a ydynt yn siarad Cymraeg, Saesneg neu iaith arall, ac ennyn parch a gwerthfawrogiad o'r iaith ymhlith pobl sy'n symud i Gymru.

Mae seilwaith ieithyddol fodern a chadarn yn hanfodol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, codi eu hyder a'i gwneud yn bosibl defnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol, proffesiwn cyfieithu modern ac ymatebol sy'n manteisio'n llawn ar y dechnoleg ddiweddaraf, ac adnoddau ieithyddol (geiriaduron, terminolegau a chorpora) i gyd yn elfennau sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, ac maent yn hanfodol i siaradwyr Cymraeg.

9. Cymuned a'r economi

Ein nod: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

Datblygiadau diweddar

Bydd cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2013, yn adlewyrchu ymhellach yr angen i ystyried y Gymraeg ym maes polisi cynllunio. Rydym wedi cymryd rhan weithredol yn y cynigion ar gyfer datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd ym Môn. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu a rheoli'r risgiau a'r manteision i'r Gymraeg. Bydd y fframwaith a'r canllawiau yn adnodd arfer gorau a fydd yn galluogi awdurdodau cynllunio a datblygwyr i ffurfio llinell sylfaen gadarn o ran hyfywedd yr iaith, ac i nodi risgiau a manteision a fydd yn cefnogi mesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau mawr/safleoedd ar hap.



Rydym wedi cefnogi a chymryd diddordeb mawr mewn datblygiadau arloesol sydd â manteision economaidd a/neu ieithyddol fel yr Egin, datblygiad gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sydd â'r potensial i greu llawer o swyddi, a chanolfannau Cymraeg, sydd wedi creu canolbwynt ar gyfer gweithio cydlynol rhwng mentrau Cymraeg lleol a lleoliad i gyflwyno rhaglenni allweddol fel Rhaglen Ddysgu Cymraeg yn y Gweithle.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*.**
- 2. Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.**
- 3. Rhoi'r fframwaith ar gyfer y Gymraeg a'r canllawiau a ddatblygwyd ar y cyd â datblygwyr Wylfa Newydd ar waith a'u hadolygu.**
- 4. Wrth ystyried cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o ddatblygiadau polisi a chynllunio'r awdurdodau lleol gan gynnwys adnabod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau adran 106.**
- 5. Buddsoddi mewn rhaglenni entrepreneuriaidd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg yng nghefn gwlad.**
- 6. Gorchymyn i'r Comisiwn Seilwaith sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion ynghylch buddsoddi mewn seilwaith.**
- 7. Yn dilyn Brexit, sicrhau bod y gefnogaeth i'r diwydiant amaeth fel cyflogwr/busnes allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn parhau.**
- 8. Sicrhau bod yna Gynlluniau Datblygu Lleol ar draws Cymru, a helpu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol fel bo'u hangen. Dylai pob cyllun roi ystyriaeth i'r Gymraeg.**
- 9. Lansio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn ystyried y Gymraeg yn elfen bwysig.**

10. Diwylliant a'r cyfryngau

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

Datblygiadau diweddar

Cyhoeddwyd *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru* yn 2016, gan bwysleisio pwysigrwydd diwylliant i Gymru, a phwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o'n diwylliant. Mae diwylliant yn gwbl ganolog i'r 'Brand Cymru' newydd, sydd â'r nod o harneisio ein creadigrwydd i ddatgelu storïau newydd sy'n ategu diwylliant cyfoethog ein gwlad, ac mae ein hymgyrch dwristiaeth bresennol yn dathlu ein chwedlau cenedlaethol fel modd i werthu ein treftadaeth unigryw i'r byd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru, mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi datblygu mentrau newydd sydd wedi arwain at waith moderneiddio sylweddol ac estyn llaw i gynulleidfaedd newydd yn ogystal â chefnogwyr traddodiadol.



Mae darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys BBC Cymru Wales, S4C ac ITV Cymru Wales yn parhau i chwarae rhan bwysig yn yr ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn dal i ffynnu. Er nad yw darlledu'n fater datganoledig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i ddatblygu a gwella.

Mae Siarter newydd y BBC a gyhoeddwyd yn 2016 yn adnewyddu ymroddiad y sefydliad i wasanaethau Cymraeg. Mae'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig yn cadarnhau partneriaeth y BBC ag S4C, ac yn sicrhau bod y ddau gorff yn cydweithio i gadw a diogelu annibyniaeth ei gilydd. Mae hefyd yn sicrhau setliad ariannol cadarn mewn perthynas â chyllid S4C o ran ffi'r drwydded sy'n hanfodol bwysig i S4C allu parhau i ddatblygu ei gwasanaethau.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

1. **Sicrhau bod sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru yn gallu cael gfael ar yr help sydd ei angen arnynt i hybu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn disgwyl i'r cyrff a noddir gennym, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru, chwarae rhan flaenllaw i'n helpu ni i wneud hyn.**
2. **Defnyddio'r Gymraeg fel rhan o 'Brand Cymru' i hybu Cymru er mwyn denu twristiaeth a buddsoddiadau.**
3. **Drwy ein gweithgarwch noddi, sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd.**
4. **Defnyddio'n dylanwad i sicrhau bod y cynnig mewn cysylltiad â radio a theledu a'r holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oed.**
5. **Parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatiau, er mwyn bodloni'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd.**

11. Cymru a'r byd ehangach

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

Datblygiadau diweddar

Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cynllunio ieithyddol ochr yn ochr â gwledydd eraill lle y siaredir mwy nag un iaith, gan gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i rannu arfer da ac arbenigedd wrth ddatblygu polisiau cynllunio ar gyfer ieithoedd lleiafrifol. Drwy ein cynllun grant ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, rydym wedi cefnogi prosiectau cynllunio ieithyddol â'r nod o integreiddio mewnddyfodiaid sy'n byw mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.


- 1. Arwain drwy esiampl drwy gofleidio ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth gysylltu â'r byd ehangach, gan sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'w plethu i mewn i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig.**
- 2. Arwain drwy esiampl fel Llywodraeth, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog drwy ddylanwadu ar holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.**
- 3. Gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu drwy dreialu ymyriadau, fel Prosiect Pecyn Croeso â Chyngor Sir Ynys Môn, ac os yw hwn yn llwyddiant, ei ehangu i awdurdodau lleol eraill.**
- 4. Datblygu gwell cefnogaeth i wella'r broses o integreiddio mewnddyfodiaid â chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn debyg i Raglen *Voluntariat per la Llengua* yng Nghatalwnia.**

12. Technoleg ddigidol

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

Datblygiadau diweddar

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ymdrin â materion ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg a'r cyfryngau digidol er 2012. Mae cynllun grant ar gyfer hybu defnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg wedi bod yn llwyddiannus yn creu prosiectau arloesol, er eu bod ar raddfa fach, ac yn y gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth o dechnoleg sydd ar gael yn Gymraeg. Mae ein gweithgarwch wedi canolbwyntio ar farchnata a chynyddu ymwybyddiaeth o adnoddau sydd ar gael; cymell y prif gwmnïau technoleg i gynnig mwy i siaradwyr Cymraeg; annog y gwaith o ddatblygu cymwysiadau meddalwedd a gwasanaethau digidol newydd Cymraeg; yn ogystal â chreu, rhannu a defnyddio cynnwys digidol Cymraeg a chefnogi arfer da yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Buddsoddi mwy mewn ymchwil ac arloesi ym maes technoleg iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn yr oes ddigidol.**
- 2. Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau i gefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig.**
- 3. Cefnogi datblygu adnoddau digidol newydd dwyieithog i'w defnyddio mewn ysgolion, yn y gweithle ac wrth gymdeithasu.**
- 4. Parhau i gymell y prif gwmnïau technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt yn y Gymraeg.**
- 5. Sicrhau bod y rhai sy'n cael grantiau gennym a sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg yn defnyddio technoleg yn dda, gan gynnwys systemau data, cyfathrebu mewnol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau marchnata.**
- 6. Cefnogi ymdrechion i gynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar Wikipedia.**

13. Seilwaith ieithyddol

Ein nod: sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r strategaeth.

Datblygiadau diweddar

Rydym wedi rhoi cefnogaeth barhaus i Geiriadur Prifysgol Cymru, unig eiriadur hanesyddol safonol y Gymraeg, yn ogystal ag i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, cymdeithas cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn BydTermCymru, y porthol i adnoddau gwasanaeth cyfieithu Llywodraeth Cymru, fel bod gan gyfieithwyr fynediad at adnoddau gwerthfawr fel ein cronfa derminoleg, TermCymru. Yn fwy diweddar, rydym wedi comisiynu gwaith maes gan dîm CorCenCC i gofnodi'r Gymraeg fel y mae'n cael ei siarad a'i hysgrifennu heddiw, ac rydym wedi llwyddo i ryddhau rhagor o adnoddau technolegol Cymraeg, o dan drwydded agored. Rydym wedi buddsoddi mewn fersiwn ar-lein o'r *Termiadur Addysg*, sy'n darparu terminoleg Gymraeg wedi'i safoni i'w defnyddio ym maes addysg.



Yn ogystal, fel rhan o'i gwaith i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, mae Comisiynydd y Gymraeg yn darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â datblygu a chydgysylltu terminoleg ac enwau lleoedd, ac o ran cefnogi'r diwydiant cyfieithu drwy gynhyrchu canllawiau a chyngor ar arfer gorau.

Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Adolygu'r strwythurau presennol i sicrhau bod gennym bolisi corpora cynaliadwy (h.y. casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain) ar gyfer y Gymraeg.**
- 2. Cefnogi cynhyrchu rhagor o adnoddau geiriadurol, corpws a therminolegol o ansawdd uchel i gefnogi dysgwyr a siaradwyr rhugl.**
- 3. Parhau i gefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg fel bod gan y sector y gallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu achrededig o safon, a bod y systemau diweddaraf a ddefnyddir o ran cyfieithu peiriant ar gael i'r sector i wella cywirdeb, cyflymder a chysondeb cyfieithu.**

14. Cynllunio ieithyddol

Ein nod: sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

Datblygiadau diweddar

Er mwyn sicrhau cynllunio ieithyddol effeithiol, mae angen dealltwriaeth o'r gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru a chynllunio ymyriadau yn unol â hynny. Mae cynllunwyr ieithyddol yn bodoli eisoes mewn nifer o wahanol fannau, boed yn gyrff cyhoeddus, yn y byd academiaidd neu'n gweithredu ar lawr gwlad, er mae'n bosib nad ydynt yn ystyried eu hunain yn gynllunwyr ieithyddol. Rydym eisoes yn cynllunio ar lefel genedlaethol ac yn targedu ardaloedd lleol penodol. Fodd bynnag, mae yna le i gynllunio'n ieithyddol ar lefel ranbarthol yn y dyfodol

O dan Safonau'r Gymraeg, sy'n cael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a orfodir ganddi, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi ac adolygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg bob pum mlynedd, yn amlinellu sut y maent yn bwriadu cynllunio ar gyfer y Gymraeg a'i hyrwyddo.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

- 1. Sefydlu bwrdd rhaglen i sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws gwaith y Llywodraeth.**
- 2. Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol - Deall Dwyieithrwydd.**
- 3. Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio y strategaethau sirol ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

15. Gwerthuso ac ymchwil

Ein nod: parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

Datblygiadau diweddar

Cyhoeddwyd *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* gennym yn 2013 ac mae hwn wedi darparu sail ar gyfer rhaglen o waith ymchwil i gryfhau'r broses o ddatblygu polisiau ynglŷn â'r Gymraeg. Mae ein gwaith dadansoddol ers hynny wedi cynnwys Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, astudiaethau ymchwil ar y defnydd o'r iaith yn y gymuned a throsglwyddo'r iaith, a gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.



Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.

1. Parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth, a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt pryd bynnag y mae hynny'n bosibl.
2. Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes. Byddwn hefyd yn archwilio dulliau o gasglu gwybodaeth ynghylch defnydd siaradwyr o'r Gymraeg drwy Arolygon Defnydd Iaith.